**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PROMENÂD Y DWYRAIN, PORTHCAWL, PEN-Y-BONT AR OGWR) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r darn o briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 22 Rhagfyr 2021 o dan y cyfeirnod P/21/835/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Promenâd y Dwyrain, Porthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr) 2022 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Porthcawl, 13 Church Place, Porthcawl CF36 3AG neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1532675, neu gellir eu gweld ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 23 Mehefin 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (EASTERN PROMENADE, PORTHCAWL, BRIDGEND) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Bridgend County Borough Council on 22 December 2021 with reference number P/21/835/FUL described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Eastern Promenade, Porthcawl, Bridgend) Order 2022 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at Porthcawl Library, 13 Church Place, Porthcawl CF36 3AG or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1532675, or viewed online on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

a. it is not within the powers of the Act; or

b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 23 June 2022 make an application for the purpose to the High Court.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o lain ymyl y briffordd sy'n ffinio â llinell cwrb ddeheuol Promenâd y Dwyrain, Porthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 851 o fetrau sgwâr, a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2
**Y datblygiad**

Codi siop fwyd (dosbarth defnydd A1) gyda mynediad, maes parcio, tir cyhoeddus, a gwaith tirlunio cysylltiedig ar dir yn Salt Lake ger Promenâd y Dwyrain, Porthcawl CF36 5TS.

## SCHEDULE 1
**(All measurements are approximate)**
**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway verge adjoining the southern kerbline of Eastern Promenade, Porthcawl, Bridgend, having a total area of 851 square metres, shown by zebra hatching on the deposited plan

## SCHEDULE 2
**The development**

Erection of a foodstore (use class A1) with associated access, car parking, public realm and landscaping on land at Salt Lake off Eastern Promenade, Porthcawl CF36 5TS.